Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Is-bwyllgorau ar Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012

Meeting Venue:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Meeting date:
**Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2012**

Meeting time:
**08:45**

For further information please contact:

**Lara Date**
Committee Clerk
029 2082 1821

## Agenda

1. **Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**
2. **Y Dull o Graffu** (Tudalennau 1 - 10)

**At:** Aelodau yr Is-bwyllgorau Menter a Busnes a Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Gan:** Y Gwasanaeth Pwyllgorau

**Dyddiad:** 5 Rhagfyr 2012

**RHEOLIADAU MANGREOEDD ETC. DI-FWG (CYMRU) (DIWYGIO) 2012**

## Diben

1. Gwahodd aelodau'r is-bwyllgorau i drafod a chytuno ar y dull o gymryd tystiolaeth bellach ar y Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012.

## Cefndir

2. Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007") drwy ddarparu esemptiad i berfformwyr o ofynion di-fwg Rheoliadau 2007 yn yr amgylchiadau canlynol:-

- Pan roddir y perfformiad mewn cysylltiad â gwneud ffilm neu raglen deledu;
- Pan fydd uniondeb artistig y perfformiad yn ei gwneud yn briodol i'r perfformiwr ysmygu;
- Pan nad oes aelodau o'r cyhoedd yn gwylio'r rhaglen deledu neu'r ffilm yn cael ei gwneud; a
- Pan nad oes plant yn bresennol yn y rhan o'r fangre nad yw'n ardal ddi-fwg a lle byddai'r perfformiwr yn perfformio.

3. Cafodd y rheoliadau a'r memorandwm esboniadol eu gosod ar 18 Gorffennaf 2012. Cawsant eu hystyried gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 24 Medi ac ni adroddodd y Pwyllgor hwnnw y dylai'r Cynulliad dalu sylw arbennig i'r rheoliadau ar sail unrhyw ran o Reol Sefydlog 21.3. O ganlyniad, dywedodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ wrth y Pwyllgor Menter a Busnes a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol bod pryder ynghylch y mater hwn yn parhau ymysg rhai o Aelodau'r Cynulliad ac o ganlyniad i hynny ei bod wedi dod i'r casgliad bod budd mewn ystyried y dystiolaeth ymhellach. Mae'r ddadl ar y Rheoliadau wedi'i gohirio i alluogi'r ddau Bwyllgor i gymryd tystiolaeth ar y cyd wrth bob grŵp sydd â diddordeb yn y mater hwn.

4. Ar 29 Tachwedd, cytunodd y ddau Bwyllgor i sefydlu is-bwyllgor â phum aelod yr un o dan Reol Sefydlog 17.17. Dylai'r ddau is-bwyllgor, sy'n cwrdd ar yr un pryd, ddod i'w casgliadau ac adrodd cyn gynted a bo modd o fewn cyfyngiadau'r amserlen fusnes. Bydd yr is-bwyllgorau'n cael eu diddymu ar ôl i'r Rheoliadau gael eu hystyried gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.

5. Mae Rheol Sefydlog 17.19 yn gofyn bod unrhyw is-bwyllgor yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor a oedd yn gyfrifol am ei sefydlu. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd disgwyl i'r ddau is-bwyllgor sy'n gweithio ar y Rheoliadau hyn ofyn i'w rhiant-bwyllgorau gymeradwyo'r adroddiad terfynol. Mae'r Gweinidog wedi cael rhybudd am y gofyniad gweithdrefnol hwn oherwydd mae'n bosibl y bydd gan y ddau riant-bwyllgor wahanol farn am ganfyddiadau'r is-bwyllgorau.

**Cylch Gorchwyl Arfaethedig a'r Ymgynghoriad Ysgrifenedig**

6. Gwahoddir aelodau'r is-bwyllgorau i ystyried y llythyr ymgynghori sy'n cynnwys y cylch gorchwyl a'r rhestr ddosbarthu - gweler **Atodiad A**.

7. Os bydd Aelodau'n cytuno, y cynnig yw cyhoeddi'r ymgynghoriad ysgrifenedig erbyn dydd Gwener 7 Rhagfyr 2012 gyda dyddiad cau i'r ymatebion ddydd Gwener 18 Ionawr 2013 (sy'n caniatáu cyfnod o chwe wythnos i ymgynghori).

**Cymryd Tystiolaeth Lafar**

8. Gwahoddir aelodau'r is-bwyllgorau i

- ystyried opsiynau amserlennu ar gyfer casglu tystiolaeth lafar yn y flwyddyn newydd, sydd wedi'u hamlinellu isod; ac
- ystyried y rhestr o dystion yr hoffai Aelodau eu gwahodd i roi tystiolaeth.

***(i) Opsiynau amserlennu***

9. Mae'r opsiynau isod yn ffyrdd posibl i amserlennu gwaith yr is-bwyllgorau, gan ystyried y rhaglenni gwaith y cytunwyd arnynt ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Menter a Busnes. Gwahoddir Aelodau i ystyried yr opsiynau a chytuno ar sut yr hoffent amserlennu gwaith yr is-bwyllgorau.

<u>Opsiwn 1</u>
Canfod amser i'r is-bwyllgorau gwrdd ar yr un pryd yn ystod y slotiau sydd eisoes ar gael i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Menter a Busnes (hynny yw, boreau Mercher, boreau Iau a phrynhawniau Iau).

*Sylwch: Rhagwelir y bydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystyried nifer o Filiau yng Nghyfnod 1 yn y flwyddyn newydd. Golyga hynny, ynghyd â llwyth gwaith polisi trwm y Pwyllgor Menter a Busnes, mai'r cynharaf y gellir dechrau casglu tystiolaeth lafar yw 28 Chwefror.*

<u>Opsiwn 2</u>
Mae dau slot fore Mawrth ar gael yn y flwyddyn newydd i'r is-bwyllgorau eu defnyddio:

- 09.00 – 11.00: Dydd Mawrth 22 Ionawr – gall yr is-bwyllgorau gwrdd yn y slot hwn heb effeithio ar raglenni gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Safonau;

- 09.00 – 11.00: Dydd Mawrth 29 Ionawr – gall yr is-bwyllgorau gwrdd yn y slot hwn ond byddai gwrthdaro ar gyfer un aelod o'r is-bwyllgorau sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau.

Os yw Aelodau o'r farn bod angen mwy na phedair awr i gymryd tystiolaeth, gellir defnyddio'r slotiau dydd Mawrth hyn ar y cyd â unrhyw slotiau sydd ar gael yn rhaglenni'r rhiant-bwyllgorau ym mis Chwefror / Mawrth.

*Sylwch: Mae'r opsiwn hwn yn gofyn am ystyried unrhyw wrthdaro o ran aelodaeth ac efallai bydd angen cytundeb y Pwyllgor Busnes.*

<u>Opsiwn 3</u>
Canfod amser i'r is-bwyllgorau gwrdd ar yr un pryd tu allan i slotiau arferol y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Menter a Busnes a thu allan i amserlen bresennol pwyllgorau (h.y. brynhawn Llun, dydd Mercher a dydd Iau pa na fydd y rhiant-bwyllgorau yn cwrdd, neu cyn neu ar ôl cyfarfodydd y rhiant-bwyllgorau).

*Sylwch: Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ystyried pryd fyddai Aelodau ar gael ac unrhyw wrthdaro o ran aelodaeth ac efallai byddai angen cytundeb y Pwyllgor Busnes.*

***(ii) Tystion Posibl***

10. Gall yr Aelodau ystyried gwahodd y cynrychiolwyr canlynol i sesiynau tystiolaeth lafar. Gwahoddir Aelodau i nodi os hoffent wahodd unrhyw sefydliadau eraill, neu nodi a oes meysydd penodol yr hoffent flaenoriaethu o ran y gwaith craffu.

*Cynrychiolwyr o'r diwydiant ffilm a theledu, gan gynnwys:*

- Asiantaeth Ffilm Cymru – asiantaeth ddatblygu genedlaethol ar gyfer y diwydiant ffilm yng Nghymru

- BBC Cymru Wales
- PACT (Producers Alliance for Cinema and Television) – PACT yw cymdeithas masnach y DU sy'n cynrychioli a hyrwyddo buddiannau masnachol cwmnïau ffilm a theledu annibynnol
- TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) – Mae TAC yn gymdeithas fasnach sy'n cynrychioli buddiannau gweithwyr annibynnol sy'n cynhyrchu gwaith yn bennaf ar gyfer darlledwyr yng Nghymru

- Equity – undeb llafur y DU ar gyfer perfformwyr proffesiynol

- BECTU - undeb llafur ar gyfer gweithwyr ym meysydd darlledu, ffilm, theatr, adloniant a meysydd perthynol
- Guild of British Camera Technicians

*Cynrychiolwyr o sefydliadau iechyd*, *gan gynnwys:*

- Cancer Research UK
- Cymdeithas Thorasig Prydain/Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
- ASH Cymru

- Cymdeithas Feddygol Prydain
- Coleg Brenhinol y Ffisigwyr

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

*Cynrychiolwyr llywodraeth leol*, a fydd yn gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau.

**Cam i'w gymryd**

11. Gwahoddir aelodau'r is-bwyllgorau i:

- ystyried a chytuno ar gylch gorchwyl, llythyr ymgynghori a rhestr o ymgynghoreion;
- ystyried opsiynau ar gyfer amserlennu'r gwaith a chytuno ar y dull o fynd ati gyda'r gwaith;
- ystyried a chytuno ar ba dystion i'w gwahodd i roi tystiolaeth lafar.

**Atodiad A: Y Llythyr Ymgynghori**

**Yr Is-bwyllgor Menter a Busnes a'r Is-bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Y Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012**

**The Enterprise and Business Sub-Committee and the Health and Social Care Sub-Committee on The Smoke-free Premises etc. (Wales) (Amendment) Regulations 2012**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

7 Rhagfyr 2012

Annwyl Gyfaill

**Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012**

Mae Pwyllgor Menter a Busnes a Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi sefydlu is-bwyllgor yr un i gymryd tystiolaeth gan grwpiau â diddordeb yn y Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012. Fe fydd yr is-bwyllgorau yn uno â'i gilydd i ystyried tystiolaeth ar yr un pryd.

Mae'r diwygiad hwn yn darparu esemptiad i berfformwyr o'r gofynion di-fwg, a bydd yn weithredol: adeg perfformiad a roddir mewn cysylltiad â gwneud ffilm neu raglen deledu; pan fo uniondeb artistig y perfformiad yn ei gwneud yn briodol i'r person hwnnw ysmygu; pan nad oes aelodau o'r cyhoedd yn gwylio'r rhaglen deledu neu'r ffilm yn cael ei gwneud; a, pan nad oes plant yn bresennol yn y rhan o'r fangre lle byddai'r perfformiwr yn ysmygu.

Dyma'r cylch gorchwyl:

- Ystyried tystiolaeth gan grwpiau sydd â diddordeb ar y costau a'r buddion cymdeithasol, economaidd ac iechyd sy'n gysylltiedig â'r diwygiad arfaethedig i Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007;
- Ceisio cytuno ar gynnwys adroddiad ar y cyd a gosod yr adroddiad gerbron y Cynulliad i fod yn sail i'r ddadl ar y Rheoliadau;

Dyma'r cwestiynau yr hoffai'r Pwyllgor gael eich barn yn eu cylch:

- A oes angen y diwygiad hwn i esemptio perfformwyr o'r gofynion di-fwg at ddibenion masnachol?
- A fydd y diwygiad hwn yn cyflawni ei nod o gefnogi'r diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru?

/2…

Ffôn / Tel: 029 2089 1821
E-bost / Email: swyddfaddeddfwriaeth@cymru.gov.uk / legislationoffice@wales.gov.uk



Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

- A oes digon o eglurder o ran yr amgylchiadau y mae'r esemptiad yn weithredol ynddynt?
- A yw'r amodau yn cynnig diogelwch digonol i berfformwyr eraill, staff cynhyrchu ac aelodau o'r cyhoedd?
- A ellir creu canlyniadau anfwriadol drwy gyflwyno'r esemptiad hwn?
- Pa ystyriaethau o ran polisi iechyd sy'n berthnasol i'r diwygiad hwn?

**Gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymchwiliad**

Mae'r ddau is-bwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad. Os ichi gyflwyno tystiolaeth adeg ymgynghoriad cyhoeddus blaenorol Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau, efallai yr hoffech ail-gyflwyno'r dystiolaeth honno i'r is-bwyllgorau gael ei hystyried.

Byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn nhymor y gwanwyn 2013, felly byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi yn eich cais a fyddech yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar, os cewch wahoddiad i wneud hynny.

Yn gyffredinol, gofynnwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno yn ysgrifenedig oherwydd ei bod yn arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor ar ein gwefan, er mwyn iddi ddod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf sain neu fideo. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, pan fydd hynny'n berthnasol, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i **SwyddfaDdeddfwriaeth@cymru.gov.uk**.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Clerc y Pwyllgor, Is-bwyllgorau Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Diwygio), Gwasanaeth y Pwyllgorau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **dydd Gwener 18 Ionawr 2013**. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

/3…

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor yn gwahodd ymatebion gan y rhai a enwyd ar y rhestr atodol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar petaech yn gallu anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir

**Mark Drakeford a Nick Ramsay**
Cadeiryddion
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Menter a Busnes

**<u>Rhestr Ddosbarthu</u>**

**Iechyd**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Bwrdd Iechyd Cwm Taf

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)

Coleg Brenhinol y Ffisigwyr

Cancer Research UK

Cymdeithas Thorasig Prydain

Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint

Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle

Dim Smygu Cymru

ASH Cymru

Forest (Freedom Organisation for the Right to Enjoy Smoking Tobacco)

**Llywodraeth leol (gorfodi)**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Diwydiant Ffilm/Teledu:**

Comisiwn Sgrîn Cymru

Asiantaeth Ffilm Cymru

BBC Cymru Wales

ITV Cymru

S4C

TAC – Teledwyr Annibynnol Cymru (80 aelod)

PACT – Producers Alliance for Cinema and Television

Machine Productions Ltd

Barefoot Rascals Ltd

Fragrant Films Ltd

Ofcom

Bectu – undeb yn cynrychioli gweithwyr

Equity – cynrychioli actorion

Guild of British Camera Technicians

BAFTA Cymru

Cyfle Cyf

Ysgol Ffilm Ryngwladol Cymru, Prifysgol Casnewydd

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd

Yr Adran Theatr, Ffilm a Theledu, Prifysgol Aberystwyth

Skillset Cymru / Academi Cyfryngau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cynulleidfaoedd Cymru

Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru

Talent Boom

Cwmni Pawb

Video Wales

**Theatrau / sefydliadau celfyddydau perfformio**

Opera Cenedlaethol Cymru

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Celfyddydau Gwirfoddol Cymru

Celfyddydau a Busnes Cymru

Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru

Ballet Cymru

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Cyngor Prydeinig Cymru

Celfyddydau Anabledd Cymru

Cymdeithas Ddrama Cymru

Theatre in Wales

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

National Theatre Wales

Theatr Genedlaethol Cymru